


System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru ([WNWRS](#))

Taliadau Bonws COVID-19

Mae [canllawiau ychwanegol](#) gan Lywodraeth Cymru bellach wedi cael eu rhoi i bob practis meddyg teulu a meddyg teulu locwm ar sut y bydd Taliad Bonws Covid yn cael ei roi (dolen i'r Cwestiynau Cyffredin [yma](#)). Defnyddir data o'r WNWRS i ddilysu unrhyw daliadau a wneir, felly gwnewch yn siŵr bod yr holl wybodaeth yn gyfredol. Mae'n bwysig sicrhau bod gan yr holl staff sy'n gymwys gofnodion llawn, dilys, felly gwiriwch ardal 'leavers' eich Staff Table yn ogystal â'ch staff 'active'.

Ar gyfer pob ymholiad ar Daliadau Bonws Covid, anfonwch e-bost at

nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk gan mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i'ch cynghori chi.



Ffocws ar: Swyddi Gwag

Fel y Cyflogwr Arweiniol Sengl ar gyfer meddygon teulu dan hyfforddiant, mae PCGC yn sefydlu llwybr i gyfeirio meddygon teulu sydd newydd gymhwyso i swyddi gwag mewn practisiau meddygon teulu. Os oes gan eich practis swyddi gwag i feddygon teulu, ychwanegwch y rhain at yr WNWRS. Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â'r llwybr a'r camau nesaf.

Y camau i'w cymryd: Dylai pob rheolwr practis neu'r rhai sy'n mewnbynnu data WNWRS nodi unrhyw swyddi gwag yn eu practisiau yn ardal 'Vacancy' yr WNWRS. Mae hyn ar yr opsiynau ar yr ochr chwith pan fyddwch yn mewngofnodi gyntaf – Vacancy Overview.



Locum Hub Wales

Bydd 'Accepting Multiple Locums' ar gyfer sifft ar gael yn Locum Hub Wales yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 14/06/21. Bydd manylion am y swyddogaeth hon yn cael eu rhannu gyda'r holl bractisiau cofrestredig ac maent i'w gweld ar [dudalennau cymorth LHW](#).

Lawrlwytho Data – 30 Mehefin 2021

Diolch i'r holl bractisiau sydd eisoes wedi mewngofnodi i'r WNWRS yn ystod y chwarter hwn. Mae'n galonogol iawn gweld gwelliant yn ansawdd data'r WNWRS. Bellach, dim ond 128 o rybuddion (darnau o ddata sydd ar goll) sydd yn yr WNWRS, allan o dros 10,000 o gofnodion, sy'n ganlyniad calonogol iawn ac yn dyst i holl waith caled a diwydrwydd y rheolwyr practisiau ledled Cymru. Mae hyn yn ein helpu i nodi staff yn gywir ar gyfer pryderon GMPI ac yn gwella dibynadwyedd data'r gweithlu yn y modiwl adrodd.

Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, mewngofnodwch i'r WNWRS a gwiriwch fod eich cofnodion staff yn gyfredol. Bydd unrhyw bractis na fydd wedi mewngofnodi yn ystod Chwarter 2 (1 Ebrill 2020–30 Mehefin 2021) yn dangos ei fod heb ddilysu yn yr adroddiadau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Syniadau ac Awgrymiadau Adrodd



Os oes angen adroddiad arnoch yn dangos eich holl staff practis, dilynwch y camau syml isod:

- Mewngofnodwch i System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu
- Cliciwch ar yr ardal 'Data Reporting Module' ar yr ochr chwith
- Cliciwch ar 'Reports' – 'Excel Reports' ar yr ochr chwith
- Gwiriwch fod yr 'Organisation Type' wedi'i osod i 'Practice' yna dechreuwch deipio enw eich practis neu god W yn y blwch 'Select Organisation' – dewiswch eich practis
- Dewiswch 'Practice Staff Report' yn y gwymplen 'Choose Report Type'
- Cliciwch ar 'Generate Report'
- Bydd adroddiad Excel o'r holl staff practis yn ymddangos mewn llai na munud – agorwch ef, newidiwch ef ac arbedwch ef i'ch ffeiliau.

